Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mr Alex Hamilton
Cangen Polisi a Rheoleiddio Gwastraff
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

30 Mawrth 2015

**Cais Llywodraeth Cymru am dystiolaeth yn ymwneud â defnyddio ac effeithiolrwydd Sancsiynau Sifil ar gyfer troseddau amgylcheddol o dan Orchymyn Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Cymru) 2010, Rheoliadau Sancsiynau Sifil Amgylcheddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2010 a Rheoliadau Codi Tâl am Fagiau Siopa Untro (Cymru) 2010**

Annwyl Syr
Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio fel rheoleiddiwr, partner a chynghorydd i fusnesau, cyrff anllywodraethol, Awdurdodau Lleol a chymunedau er mwyn gweithredu polisïau a gwireddu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. Mae ein dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn hyrwyddo proses integredig o reoli adnoddau naturiol sy'n arwain at fanteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar gyfer pobl Cymru.
Mae sancsiynau sifil yn adnodd rheoleiddio hanfodol i roi'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem ar waith yng Nghymru. Mae'r gallu i'r rheoleiddiwr ymateb mewn ffordd gymesur i drosedd neu dramgwydd yn allweddol i gefnogi'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol rydym am eu sicrhau.

**Cwestiynau'r Ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1:** Yn yr ardal lle'r ydych chi'n gweithio, a yw sancsiynau sifil wedi atal achosion o ddiffyg cydymffurfio ac wedi annog newid ymddygiad a chydymffurfiaeth i'r dyfodol?

Dim ond ar gael ar gyfer is-set gyfyngedig o droseddau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrin â nhw y mae sancsiynau sifil ar gael. Ar gyfer troseddau lle mae modd defnyddio sancsiynau sifil, mae'r dystiolaeth yn dangos bod y rhai sydd wedi derbyn sancsiynau wedi mabwysiadu mesurau priodol i wella eu cydymffurfiaeth yn y dyfodol, er enghraifft mynd i'r afael â seilwaith annigonol ar safleoedd er mwyn atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol. Yn ein barn ni, gwerth pennaf sancsiynau sifil yw gwella cydymffurfiaeth troseddwyr nad oeddent yn ymwybodol o'r gyfraith neu o oblygiadau

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

eu gweithredoedd. Mae defnyddio sancsiynau yn yr achosion hyn, fel ymateb cymesur i drosedd yn hytrach nag erlyniad troseddol, wedi bod yn ddull effeithiol o newid ymddygiad a sicrhau cydymffurfiaeth i'r dyfodol.

**Cwestiwn 2:** A oes amgylchiadau lle dylai sancsiynau sifil gael eu defnyddio'n fwy neu'n llai aml?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu y dylai sancsiynau sifil fod ar gael yn ehangach ledled ein cylch gwaith i'n galluogi i fod yn rheoleiddiwr cymesur llawn sy'n gweithredu ar sail risg.

Mae sancsiynau sifil yn adnodd rheoleiddio pwysig sy'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â throseddwyr nad ydynt yn diystyru'r gyfraith yn fwriadol. Mae'r effaith fwyaf yn deillio o ymdrin â phobl sy'n gallu cael budd o ddeall beth y maent wedi'i wneud o'i le a rhoi cyfle iddynt gydymffurfio. Dengys ein profiad ni fod busnesau o'r fath yn croesawu'r cyfle i unioni pethau a helpu'r amgylchedd yr un pryd, heb y stigma, y costau a'r anawsterau o safbwynt enw da sy'n deillio o achos troseddol. Mae darparu gwasanaeth amgylcheddol drwy ganolbwyntio ar gamau adfer ac atal yn fwy manteisiol i'r gymdeithas ehangach nag erlyniad troseddol neu lythyr rhybudd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi cyfleoedd lle y byddai'n briodol gwneud mwy o ddefnydd o sancsiynau sifil. Rydym wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi camau y gallwn eu rhoi ar waith i wella cydymffurfiaeth, yn enwedig yn y sector gwastraff, gan gynnwys sicrhau bod y pwerau priodol gennym i roi camau gorfodi effeithiol ar waith.

Yn gyntaf, byddai sancsiynau sifil yn ddefnyddiol mewn achosion lle nad yw'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd yn gyson. Er enghraifft, nid yw camau sifil ar gael ar gyfer y Rhwymedigaethau Gwastraff Deunydd Pacio a'r Rhwymedigaethau Cyfrifoldebau Cynhyrchwyr (gan gynnwys Rheoliadau Cyfarpar Trydanol a Gwastraff Electronig 2013 a'r Rheoliadau Batris a Chronaduron Gwastraff).  Gall hyn greu anawsterau oherwydd yn aml bydd yr un busnes wedi cyflawni trosedd o dan y Rhwymedigaethau Gwastraff Deunydd Pacio a'r Rhwymedigaethau Cyfrifoldebau Cynhyrchwyr. O dan y trefniadau presennol, gellid defnyddio sancsiwn sifil ar gyfer un drosedd, ond byddai angen erlyniad troseddol ar gyfer y llall. Mewn achosion o'r fath, byddai'r gallu i ddwyn achosion sifil ar gyfer pob trosedd yn fwy effeithlon a manteisiol lle bo hynny'n briodol.

Yn ail, oherwydd newidiadau i ddeddfwriaeth allweddol yng Nghymru a Lloegr, mae'r rhan fwyaf o achosion llygredd a gwastraff yn dod o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 (EPR) bellach.

Ffôn/Phone: 0300 065 3000
Ffacs/Fax: 0300 065 3001
Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk
Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 OTP
Cambria House, 29 Newport Road,
Cardiff CF24 0TP
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Pasiwyd deddfwriaeth yn Lloegr ar 6 Ebrill 2015 sy'n golygu bod modd defnyddio sancsiynau sifil yn yr EPR, sy'n golygu y bydd cwmnïau ac unigolion yn gallu cynnig ymgymeriadau gorfodi. Gall gwahaniaethau mewn deddfwriaeth achosi problemau trawsffiniol i gwmnïau, yn enwedig o safbwynt troseddau yn ymwneud ag ansawdd dŵr, sy'n gallu croesi ffiniau. Yn y cyswllt hwn, mae modd rhoi sancsiynau sifil ar waith yn Lloegr, ond nid yng Nghymru. Byddai datrys yr anghysondeb hwn yn arwain at ddull gweithredu mwy cymesur ledled Cymru ac yn darparu ar gyfer dull gweithredu cyson lle gall problemau ymestyn ar draws ffiniau.

Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r defnydd o sancsiynau sifil ar gyfer troseddau EPR yng Nghymru er mwyn gwella ein gallu i reoleiddio. Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, rydym wedi nodi'r angen i ymestyn pwerau sancsiynau sifil (er enghraifft i gyflwyno hysbysiadau atal, cosbau ariannol penodedig/amrywiol, ymgymeriadau gorfodi) i gynnwys trwyddedau EPR.

**Cwestiwn 3:** A yw sancsiynau sifil wedi sicrhau cydweithredu gwell rhwng awdurdodau lleol a manwerthwyr?

Dim sylw.

**Cwestiwn 4:** A ydych chi'n cytuno bod defnyddio sancsiynau sifil yn ffordd effeithiol a theg o orfodi?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn credu bod sancsiynau sifil yn adnodd rheoleiddio gwerthfawr a hanfodol. Maent yn galluogi rheoleiddwyr i weithredu mewn ffordd gymesur yn unol â gofynion Cod y Rheoleiddwyr. O gael eu defnyddio yn yr amgylchiadau priodol, bydd sancsiynau sifil yn arwain at barodrwydd cwmni i gydymffurfio a pharhau i gydymffurfio, a gwella'i gysylltiad â'i amgylchedd a'i gymuned leol. Gall sancsiynau sifil fod yn fanteisiol i'r amgylchedd a'i adfer i'w gyflwr blaenorol neu gynnig manteision amwynderau lleol eraill. Ni fyddai dirwyon gan y llysoedd yn arwain at fanteision o'r fath ar gyfer y gymdogaeth neu'r gymuned dan sylw.

**Cwestiwn 5:** A ydych chi'n meddwl y gellid gwella'r system bresennol o sancsiynau sifil mewn unrhyw ffordd?

Fel y trafodwyd yn fanylach mewn cwestiynau blaenorol, byddai ehangu'r defnydd o sancsiynau sifil i gynnwys EPR, ar y cyd â diweddariadau priodol ac amserol fel bod modd defnyddio sancsiynau sifil yng Nghymru, yn fanteisiol ac yn helpu CNC i fod yn

Ffôn/Phone: 0300 065 3000
Ffacs/Fax: 0300 065 3001

Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 OTP

Cambria House, 29 Newport Road,
Cardiff CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

rheoleiddiwr mwy effeithiol yng Nghymru. Byddai'r newidiadau hyn yn hwyluso dull gweithredu cyson ar draws ffiniau rheoleiddio.

**Cwestiwn 6:** A yw sancsiynau sifil wedi annog rhai nad ydynt yn cydymffurfio i gydymffurfio drachefn?

Yn ein profiad ni, mae sancsiynau sifil wedi annog cwmnïau nad ydynt yn cydymffurfio i gydymffurfio drachefn. Er enghraifft, mae wyth cwmni a ddefnyddiodd ymgymeriadau gorfodi ar gyfer troseddau'n ymwneud â pheidio â chofrestru fel cynhyrchydd deunydd pacio yn cydymffurfio erbyn hyn. Yn ogystal, maent wedi parhau i gydymffurfio'n llawn â'u cyfrifoldebau a'u rhwymedigaethau o dan y Rheoliadau Deunydd Pacio.

**Cwestiwn 7:** A ydynt wedi bod yn gymesur â'r drosedd a, drwyddo draw, wedi helpu i sicrhau chwarae teg?

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n credu bod defnyddio sancsiynau sifil wedi helpu i sicrhau chwarae teg. O safbwynt cyfrifoldeb cynhyrchwyr, maent wedi cysylltu mewn ffordd gymesur â'r drosedd, ac mae lefel y rhoddion i elusennau wedi adlewyrchu'r costau a gafodd eu hosgoi gan y cwmnïau drwy fethu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Mae'r ymgymeriadau gorfodi ar gyfer gwastraff nad yw'n ddeunydd pacio sydd wedi'u derbyn wedi adlewyrchu'r drosedd a'r gosb debygol a fyddai'n cael ei gorfodi gan y llysoedd ar sail y Canllawiau Dedfrydu Amgylcheddol.

**Cwestiwn 8:** A ydynt wedi dileu risgiau ac wedi atal niwed rhag digwydd neu barhau?

Mae sancsiynau sifil yn darparu'r drefn hon, lle mae dileu risg ac atal y drosedd rhag cael ei chyflawni eto, neu sicrhau nad yw'r drosedd yn parhau, yn un o'r meini prawf allweddol i'w ystyried cyn derbyn unrhyw ymgymeriadau gorfodi.

Mewn achos diweddar yn y De, buddsoddwyd swm sylweddol o arian gan gwmni a oedd â seilwaith ar ei safle a oedd wedi arwain at nifer o ddigwyddiadau llygredd mewn cwrs dŵr cyfagos, er mwyn gwella seilwaith ei safle ac osgoi unrhyw ddigwyddiad llygredd yn y dyfodol.

Un fantais sydd gan sancsiynau sifil yw'r ffaith fod modd gwneud rhoddion i wella'r amgylchedd, er enghraifft, cwrs dŵr neu ddarn o dir sydd wedi'i effeithio. Fodd bynnag, lle nad oes dioddefwr neu amgylchedd penodol sydd wedi'i effeithio, mae'r dull

Ffôn/Phone: 0300 065 3000
Ffacs/Fax: 0300 065 3001

Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 0TP
Cambria House, 29 Newport Road,
Cardiff CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

gweithredu rheoli adnoddau naturiol yn hyrwyddo rhoddion sy'n canolbwyntio ar gysylltu gwelliannau amgylcheddol â manteision i'r gymuned leol.

**Cwestiwn 9:** A ydynt wedi sicrhau bod difrod yn cael ei gywiro, y gwneir iawn i gymunedau lleol a bod y llygrwr yn talu?

Os oes modd cywiro difrod neu wneud iawn amdano, nodir hynny yn y cynnig. Lle bo modd, defnyddir rhoddion i gywiro cyrsiau dŵr neu dir sydd wedi'u heffeithio. Fodd bynnag, lle nad oes dioddefwr neu amgylchedd penodol sydd wedi'i effeithio, mae'r dull gweithredu rheoli adnoddau naturiol yn hyrwyddo rhoddion sy'n canolbwyntio ar gysylltu gwelliannau amgylcheddol â manteision i'r gymuned leol.

Ni dderbynnir ymgymeriad gorfodi heb ystyried yr agweddau hyn, gan gynnwys y costau sy'n cael eu hysgwyddo gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ymchwilio i'r drosedd a chwblhau unrhyw wiriadau cydymffurfio gofynnol yn y dyfodol.

**Cwestiwn 10:** A ydynt wedi sicrhau gwell canlyniadau neu'r un canlyniadau am lai o gost?

Yn ein profiad ni, mae sancsiynau sifil wedi sicrhau canlyniadau da o ran cydymffurfiaeth a chydymffurfiaeth barhaol, ac maent wedi gwella amgylchedd Cymru yn uniongyrchol.

Mae defnyddio sancsiynau sifil wedi arwain at gamau gweithredu cymesur ar gyfer troseddau, yn hytrach na gorfod erlyn y troseddwr fel o'r blaen. Yn yr achosion hyn, credir bod y canlyniad yn well a'r gost yn llai.

**Cwestiwn 11:** A lwyddwyd i osgoi 'canlyniadau anfwriadol' negyddol?

Nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi unrhyw "ganlyniadau anfwriadol" negyddol.

**Cwestiwn 12:** A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei godi o safbwynt yr adolygiad hwn?

Dim sylw arall.

Yn gywir

Ffôn/Phone: 0300 065 3000
Ffacs/Fax: 0300 065 3001

Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 0TP
Cambria House, 29 Newport Road,
Cardiff CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Isobel Moore
Pennaeth Busnes, Rheoleiddio ac Economeg

Ffôn/Phone: 0300 065 3000
Ffacs/Fax: 0300 065 3001

Ebost: ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Email: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.naturalresourceswales.gov.uk

Tŷ Cambria, 29 Heol Casnewydd,
Caerdydd, CF24 OTP
Cambria House, 29 Newport Road,
Cardiff CF24 0TP

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English